**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio'r Dreth Gyngor ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**15 Rhagfyr 2025**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025 (“Rheoliadau 2025”) yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 (“Rheoliadau 1993”). Mae Rheoliadau 2025 yn ymdrin â newid rhestrau'r dreth gyngor gan swyddogion rhestru, a'r broses ar gyfer cynnig unrhyw newidiadau ac ar gyfer gwneud apelau, pe bai anghytundeb mewn perthynas â chynnig.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (“Deddf 1992”) yn nodi gweithrediad system y dreth gyngor, gan gynnwys cyfrifoldebau llywodraeth leol a rôl Asiantaeth y Swyddfa Brisio wrth lunio a chynnal rhestrau prisio.

3.2. Gwnaed Rheoliadau 1993 o dan bwerau gwneud rheoliadau yn Neddfau Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a 1992 (‘Deddf 1988’ a ‘Deddf 1992’). Bellach, mae Gweinidogion Cymru yn gallu arfer y pwerau hynny i wneud rheoliadau newydd. Er nad yw'r Deddfau yn darparu'n benodol ar gyfer pŵer i ddiwygio, mae adran 14 o Ddeddf Dehongli 1978 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio Rheoliadau 1993.

3.3. Mae adran 24 o Ddeddf 1992 yn darparu'r sail ar gyfer llawer o'r newidiadau i Reoliadau 1993 sy'n ymwneud â'r weithdrefn sydd i'w mabwysiadu gan swyddog rhestru ar ôl cael cynnig i newid rhestr. Er bod y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 24 yn ganiataol ac nad yw'n cyfyngu'n benodol ar ba faterion eraill y caniateir eu rhagnodi mewn rheoliadau, mae cwmpas adran 24(1) ei hun wedi'i gyfyngu i newid rhestrau gan swyddogion rhestru.

3.4. Gwneir Rheoliadau 2025 hefyd yn unol â phwerau a gynhwysir yn Rhan 2 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988, sy'n darparu pwerau gwneud rheoliadau cyffredinol a phenodol mewn perthynas â Thribiwnlys Prisio Cymru.

3.5. Mae pwerau gwneud rheoliadau perthnasol a freiniwyd yn wreiddiol yn yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddfau 1988 a 1992 bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn unol ag erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.6. Mae Rheoliadau 2025 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Bwriad Rheoliadau 2025 yw helpu i ddiwygio'r system apelio yn erbyn y dreth gyngor yng Nghymru a chyflawni'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i dreth gyngor decach. Gweinyddir y system apelio gan ddau sefydliad annibynnol, sy'n gyfrifol am wahanol gamau o'r broses. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (‘yr Asiantaeth’) yn gyfrifol am brisio a rhestru anheddau at ddibenion bandio ar gyfer y dreth gyngor, gan gynnwys ystyried cynigion gan drethdalwyr sy'n credu y dylai eu prisiad gael ei newid. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (‘y Tribiwnlys’) yn gyfrifol am apelau, pan na cheir cytundeb rhwng trethdalwr a'r Asiantaeth mewn perthynas â newid arfaethedig i brisiad.

4.2. Mae Rheoliadau 2025 yn gweithredu proses newydd i drethdalwyr o ran ymgysylltu â'r Asiantaeth, gan weithredu nifer bach o newidiadau i'r broses gynnig a'r trefniadau ar gyfer gwneud apelau i'r Tribiwnlys. Nod y newidiadau yw gwella effeithlonrwydd y system ar gyfer trethdalwyr a lleihau hap-apelau ac apelau aflwyddiannus.

4.3. Bydd y newidiadau i'r broses gynnig yn gwella tryloywder, gan ddarparu data am eiddo i drethdalwyr yn gynnar yn y broses. Bydd hyn yn galluogi trethdalwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch pa mor bell i mewn i'r broses y maent am fynd. Mae'r newidiadau hefyd yn sicrhau bod cynigion yn cael eu datrys gyda'r Asiantaeth ac yn cael gwared ar y broses o drosglwyddo cynigion i'r Tribiwnlys yn awtomatig. Mae hyn yn rhoi'r ymreolaeth i drethdalwyr i apelio'n uniongyrchol i'r Tribiwnlys dim ond os byddant yn dymuno gwneud hynny.

4.4. Gan ystyried yr ymgynghoriad a safbwyntiau rhanddeiliaid yn ogystal â mabwysiadu manteision prosesau a ddefnyddir mewn mannau eraill, cynigir y canlynol:

- Camau gweithdrefnol – sicrhau gwahaniaeth cliriach rhwng swyddogaethau'r Asiantaeth a'r Tribiwnlys, rhoi'r ymreolaeth i drethdalwyr i benderfynu a ddylid cyflwyno her yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys ar gyfer gwrandawiad apêl ganddo, cael gwared ar yr arfer bresennol yn y broses o symud i'r cam apelio heb i drethdalwr fod yn rhan o'r penderfyniad hwnnw.
- Gwella tryloywder – bydd trethdalwyr yn cael data am eu heiddo a gwerthiannau cymharol a ddelir gan yr Asiantaeth yn gynharach yn y broses, gan ganiatáu iddynt ymgysylltu'n well â'r Asiantaeth cyn cael hysbysiad penderfynu. Bydd trethdalwyr yn gallu penderfynu a ydynt yn dymuno mynd ar drywydd y mater ymhellach ac apelio'n uniongyrchol i'r Tribiwnlys. Ar hyn o bryd, mae apêl i'r Tribiwnlys yn digwydd yn awtomatig o fewn chwe mis i wneud cynnig. Yn ogystal, mae Rheoliadau 2025 yn egluro pwy gaiff fod yn barti i apêl. Mae Rheoliadau 2025 hefyd yn mewnosod darpariaeth sy'n nodi y bernir bod methiant gan y swyddog rhestru i hysbysu penderfyniad neu ddod i gytundeb, o fewn pedwar mis i'r dyddiad y cyflwynodd y cynigydd y cynnig, yn anghytundeb ynghylch cywirdeb y rhestr rhwng yr Asiantaeth a'r cynigydd, gan alluogi'r trethdalwr i apelio.

- Cam tynnu'n ôl – bydd trethdalwr yn cadw'r opsiwn i dynnu cynnig yn ôl ar ôl cael ac adolygu data am yr eiddo a gwerthiannau cymharol a ddelir gan yr Asiantaeth.
- Amserlenni – bydd gan yr Asiantaeth bedwar mis i ddatrys cynnig i newid y rhestr brisio. Bydd gan yr Asiantaeth hefyd rwymedigaethau hysbysu ychwanegol, sy'n cynnwys dyletswydd ar y swyddog rhestru i gynghori trethdalwr pa na fo'n debygol y gellir gwneud penderfyniad o fewn pedwar mis ar ôl cael cynnig.
- Cyfathrebu â threthdalwr – pan fo'r Asiantaeth yn dyroddi hysbysiad annilysrwydd sy'n honni bod cynnig wedi'i wneud yn annilys, bydd rhaid i'r cynigydd sy'n gwrthwynebu wneud hynny drwy apelio i'r Tribiwnlys, yn hytrach na thrwy ddyroddi hysbysiad anghytundeb. Rhaid i'r Asiantaeth ddiwygio'r rhestr yn unol â chynnig dilys trethdalwr os bydd yn cytuno bod sail gadarn iddo, a chaiff ddod i gytundeb â'r trethdalwr i ddiwygio'r rhestr fel arall. Pan nad oes modd dod i gytundeb, rhaid i'r Asiantaeth benderfynu a ddylid newid y rhestr.
- Ffioedd – ni chynigir unrhyw newidiadau. Mae'r gwasanaeth apelau yn parhau i fod yn rhad ac am ddim i drethdalwyr.
- Gweithrediadau'r Tribiwnlys – darperir pwerau atodol i'r Tribiwnlys i reoli agweddau gweithredol ar apelau a gwrandawiadau.

4.5. Bydd Rheoliadau 2025 hefyd yn gwneud nifer o fân ddiwygiadau canlyniadol i Reoliadau 1993, yn ogystal â dau sy'n codi o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed i adran 22B o Ddeddf 1992 gan adran 20(1)(f) ac (g) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024. Mae Rheoliadau 2025 hefyd yn gwneud dau fân ddiwygiad canlyniadol i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023.

4.6. Mae Rheoliadau 2025 hefyd yn cynnwys darpariaeth drosiannol i ddarparu y bydd Rheoliadau 1993 fel yr oeddent mewn grym yn union cyn 1 Chwefror 2026 yn parhau i fod yn gymwys ar y dyddiad hwnnw ac ar ôl hynny mewn cysylltiad ag unrhyw gynnig ar gyfer newid rhestr a wnaed cyn y dyddiad hwnnw, ac mewn cysylltiad ag unrhyw apêl a wneir mewn perthynas â chynnig o'r fath.

4.7. Bydd Rheoliadau 2025 yn dod i rym ac yn cael effaith o 1 Chwefror 2026 ymlaen.

## 5. Ymgynghori

5.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad polisi rhwng 10 Ionawr 2025 a 3 Ebrill 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r system apelio yn erbyn y dreth gyngor yng Nghymru, fel rhan o gyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, ac yn unol â'r diben a'r

effaith arfaethedig a nodir uchod. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ynghyd â datganiad ysgrifenedig ar 26 Mehefin 2025.

5.2. Daeth cyfanswm o 33 o ymatebion i law. Cafwyd 25 o ymatebion gan unigolion preifat, pedwar gan awdurdodau lleol a phedwar gan randdeiliaid.

5.3. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol, gyda 32 o ymatebwyr yn ateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau a ofynnwyd. Atebodd un ymatebydd yn negyddol i'r holl gwestiynau, gan ddefnyddio'r ymgynghoriad fel cyfrwng i fynegi anfodlonrwydd cyffredinol â system y dreth gyngor.

5.4. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr effaith gadarnhaol y byddai'r newidiadau yn ei chael ar wella tryloywder yn y system, gan gyfeirio at yr ailbrisiad sydd i ddod yn 2028. Ymhlith y prif bwyntiau a amlygwyd roedd darparu data am eiddo i drethdalwyr yn gynharach yn y broses a chael gwared ar y broses o drosglwyddo cynigion heb eu datrys yn awtomatig, er mwyn cefnogi trethdalwyr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch sut y dymunant fwrw ymlaen â'u cynnig.

5.5. Roedd rhai ymatebwyr yn feirniadol o'r system bresennol, gan fynegi rhwystredigaeth ynghylch oedi ac ynghylch anhyblygrwydd y system, yn ogystal â diffyg eglurder y broses. Cafwyd rhai awgrymiadau, megis gwella cyfathrebu â'r Asiantaeth i gael dealltwriaeth well o sut y cyflawnwyd prisiadau eiddo, yn ogystal â gallu gweld yr wybodaeth am eiddo eraill sydd o fewn tafliad carreg i'r eiddo.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

6. **Yr opsiynau**

6.1. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn mewn perthynas â'r system a ddefnyddir i weinyddu apelau yn erbyn y dreth gyngor. Mae'r holl gostau a manteision a fesurir yn yr Asesiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cyhoeddi.

6.2. Nid yw'r Asesiad hwn yn cynnwys unrhyw gostau na manteision rheolaidd sy'n gysylltiedig â'r newidiadau i nifer yr apelau yn erbyn y dreth gyngor o ganlyniad i raglen ehangach Llywodraeth Cymru o ddiwygiadau i'r dreth gyngor, gan gynnwys ailgynllunio'r dreth yn 2028 yn dilyn ailbrisiad. Mae'r costau ar gyfer y rhaglen gyffredinol o ddiwygiadau i'r dreth gyngor wedi'u cynnwys fel rhan o weithredu Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024. Mae'r newidiadau i'r system apelio yn erbyn y dreth gyngor yn y Rheoliadau hyn yn weithdrefnol ac yn hanfodol oherwydd byddant yn sicrhau bod y broses apelio yn addas i'r diben, cyn yr ailbrisiad yn 2028 pan ddisgwylir nifer uwch o gynigion ac apelau yn erbyn y dreth gyngor.

6.3. Nid yw'r Asesiad hwn yn cynnwys unrhyw gostau na manteision penodol sy'n gysylltiedig â biliau treth gyngor unigol sy'n deillio o ddynodi eiddo'n anghywir. Oherwydd yr amrywioldeb yn y cyfraddau treth gyngor a godir gan awdurdodau bilio, ac o ran gwerthoedd eiddo, a manylion bandiau, mae amcangyfrifon o'r fath yn wahanol iawn fesul achos, a thros amser wrth i amgylchiadau pobl newid. Nid yw ceisio meintioli'r effeithiau hyn yn un o effeithiau'r Rheoliadau hyn a gallai arwain at gasgliadau anghywir a allai fod yn gamarweiniol.

6.4. Mae costau TG a hyfforddiant untro yn gysylltiedig â'r newidiadau i'r system apelio yn erbyn y dreth gyngor o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn. Er y bydd angen addasu system TG bresennol yr Asiantaeth i gyflawni'r newidiadau arfaethedig o dan opsiwn 2, mae'r gwelliannau hyn hefyd yn dod ag arbedion effeithlonrwydd a gellir eu rheoli o fewn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth presennol gyda'r Asiantaeth a'r Tribiwnlys.

6.5. Ni fydd yr Asiantaeth na'r Tribiwnlys yn mynd i gostau ychwanegol o ran cyfathrebu a hysbysu trethdalwyr am y broses newydd. Er bod disgwyl i'r ddau sefydliad wneud arbedion effeithlonrwydd o dan opsiwn 2, nid yw'r arbedion posibl hyn wedi'u meintioli.

6.6. O dan y system bresennol, nid oes unrhyw gost ariannol i drethdalwr mewn perthynas â gwneud cynnig neu apêl yn erbyn y dreth gyngor. Bydd hyn yn aros heb ei newid o dan bob opsiwn. Fodd bynnag, bydd gan bob opsiwn fanteision a chostau anariannol.

6.7. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**. Cadw'r system apelio bresennol, heb unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Byddai'r system bresennol yn parhau i weithredu fel y mae ar hyn o bryd.

**Opsiwn 2 – Gwneud Rheoliadau 2025**. Deddfu i wella'r broses apelio er mwyn iddi fod yn symlach, yn fwy effeithiol ac yn haws ei dilyn. Byddai'r newidiadau hyn yn galluogi trethdalwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch pa mor bell i mewn i'r broses y maent am fynd. Byddai'r newidiadau hefyd yn sicrhau bod cynigion yn cael eu datrys gyda'r Asiantaeth mewn amserlen fyrrach ac yn cael gwared ar y broses o drosglwyddo cynigion heb eu datrys i'r Tribiwnlys yn awtomatig. Byddai'r broses well ar waith o fis Chwefror 2026 ymlaen.

## 7. Costau a manteision

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

7.1. Ni fyddai opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol. Byddai'r fframwaith apelio presennol yn parhau i fod ar waith. O dan y system bresennol, byddai cynigion nad ydynt yn cael eu datrys o fewn chwe mis yn parhau i gael eu trosglwyddo i'r Tribiwnlys yn awtomatig fel apêl. Byddai'r amserlenni gweithdrefnol yn hirach. Byddai trethdalwyr yn parhau i gael data am eu heiddo yn ddiweddarach yn y broses ac felly byddent yn llai hyddysg ac yn llai grymus i geisio apelio.

### Costau

7.2. Ni fyddai opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol, gan y byddai'r fframwaith apelio presennol yn parhau i weithredu fel y mae ar hyn o bryd.

7.3. Byddai trethdalwyr yn wynebu cost cyfle o barhau i ddefnyddio'r system bresennol, yn hytrach na system fwy syml a thryloyw, sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth. O ganlyniad, gall trethdalwyr brofi oedi wrth ddatrys eu cynigion a'u hapelau, gan arwain at golledion ariannol tymor byr os byddant yn cael eu rhoi mewn band treth gyngor anghywir ac y bydd yn ofynnol iddynt dalu cyfradd uwch o dreth am gyfnod estynedig.

7.4. Efallai na fydd y system yn addas i'r diben ar gyfer ymdrin â'r nifer cynyddol o gynigion ac apelau yn ystod blwyddyn ailbrisio ac ar ei hôl, felly byddai costau yn y dyfodol o ganlyniad i aneffeithlonrwydd y system apelio bresennol. Unwaith eto, o ganlyniad, gallai oedi wrth ddatrys arwain at golledion ariannol tymor byr.

7.5. Fel y soniwyd ym mharagraff 6.5, nid oes unrhyw amcangyfrifon ar gael ar gyfer y costau hyn o ystyried y bwriedir i'r ailbrisiad o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 gael ei weithredu yn 2028, a bydd tueddiad trethdalwyr i apelio yn erbyn eu canlyniadau yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar sut y caiff system y dreth gyngor ei hailgynllunio ar y pryd, a symudiadau yn y farchnad eiddo.

7.6. Ni fyddai gwneud dim yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i dreth gyngor decach. Byddai'r system apelio bresennol yn parhau i olygu bod unrhyw gynigion heb eu datrys yn cael eu trosglwyddo o'r Asiantaeth i'r Tribiwnlys, gan arwain at nifer uwch o hap-apelau ac apelau diangen, aneffeithlonrwydd a threthdalwyr yn symud ymlaen i dribiwnlys gyda'r Tribiwnlys yn awtomatig pan nad oeddent yn dymuno hynny. Ar hyn o bryd, mae'r Tribiwnlys yn ymdrin ag oddeutu 900 o apelau bob blwyddyn.

**Manteision**

7.7. Mae gan beidio â gwneud Rheoliadau 2025 rai manteision gan gynnwys rhanddeiliaid yn gyfarwydd â sut y mae'r system bresennol yn gweithredu, felly ni fyddai unrhyw darfu ar brosesau gweithredol presennol, ac ni fyddai angen i'r Asiantaeth na'r Tribiwnlys ddiweddaru eu systemau TG i weithredu'r prosesau newydd a fyddai'n ofynnol yn sgil Rheoliadau 2025.

**Opsiwn 2 – Gwneud Rheoliadau 2025**

7.8. Opsiwn 2 fyddai gwneud Rheoliadau 2025 i wella'r system gynnig ac apelio. Byddai'r newidiadau yn sicrhau bod trethdalwyr yn cael data am eu heiddo yn gynharach yn y broses i lywio eu penderfyniadau. Byddai'r newidiadau hefyd yn cael gwared ar y broses o drosglwyddo cynigion heb eu datrys i'r Tribiwnlys yn awtomatig, sef yr adeg y deuant yn apêl. Yn ogystal, byddai pwerau rheoli achos ychwanegol yn cael eu rhoi i'r Tribiwnlys, yn debyg i'r rhai sydd ganddo eisoes mewn perthynas ag apelau yn erbyn ardrethi annomestig. Byddai'r newidiadau yn dod i rym o fis Chwefror 2026 ymlaen.

**Costau**

7.9. Mae'r newidiadau a amlinellir yn yr opsiwn hwn yn rhan o'r rhaglen gyffredinol o ddiwygiadau i'r dreth gyngor, gan gyflawni'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i dreth gyngor decach. Mae'r costau ar gyfer y rhaglen gyffredinol o ddiwygiadau i'r dreth gyngor wedi'u cynnwys fel rhan o weithredu Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024. Amcangyfrifir bod y costau gweithredu untro sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i apelau yn £696,000 ar gyfer y newidiadau i seilwaith TG yr Asiantaeth. Gellir rheoli'r gost untro hon yn 2025-26 o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol sydd gan Lywodraeth Cymru gyda'r Asiantaeth. Fodd bynnag, byddai arbedion effeithlonrwydd parhaus wrth i brosesau gael eu symleiddio a'u cysoni'n weithredol â'r prosesau ar gyfer Lloegr.

7.10. Rhagwelir y gallai nifer cyffredinol yr apelau ostwng o dan yr opsiwn hwn, gan fod trethdalwyr yn cael eu hysbysu'n well am y data a ddelir am eu heiddo ac yn gallu gwneud dewis ar sail gwybodaeth ynghylch symud ymlaen i apêl. Yr eithriad i hynny yw'r niferoedd yn ystod blwyddyn ailbrisio, pan ragwelir y bydd nifer yr apelau yn cynyddu. Fodd bynnag, mae hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r broses ailbrisio ac nid oes ganddo unrhyw gydberthynas â'r newid deddfwriaethol hwn. Felly, nid oes unrhyw amcangyfrifon o'r costau posibl ar gyfer apelau yn y dyfodol ar ôl ailbrisio wedi'u cynnwys, gan nad yw'n bosibl

rhag-weld nifer y cynigion neu apelau a allai godi o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Fodd bynnag, pan gyflwynwyd system apelio debyg yn Lloegr yn 2009, gwelwyd gostyngiadau mewn niferoedd dros amser. Mae'r amrywioldeb yn nifer yr achosion a'r canlyniadau yn y dyfodol yn golygu y byddai unrhyw ymgais i feintioli'r costau hyn yn dibynnu ar sut y caiff system y dreth gyngor ei hailgynllunio yn y dyfodol. Byddai hefyd yn dybiannol ac yn gamarweiniol o bosibl. Felly, ni ddarperir unrhyw amcangyfrifon cost penodol ar hyn o bryd.

7.11. Nid oes angen unrhyw ohebiaeth allanol ychwanegol ar gyfer y newidiadau hyn. Fodd bynnag, byddai'n ofynnol i'r Asiantaeth a'r Tribiwnlys arwain trethdalwyr drwy bob cam o'r broses yn union fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.

7.12. Efallai y bydd angen amser ar randdeiliaid i ymgyfarwyddo â'r broses newydd. Efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol i gefnogi staff i ddeall a gweithredu'r weithdrefn weithredol wedi'i diweddaru; fodd bynnag, disgwylir i'r addasiadau hyn fod yn rhai y gellir eu rheoli. Mae staff yr Asiantaeth eisoes yn gyfarwydd â'r prosesau hyn gan eu bod yn cyd-fynd â'r system sydd ar waith yn Lloegr. Mae'r Tribiwnlys wedi amcangyfrif y byddai hyfforddi staff yn costio oddeutu £4,000 o ran yr oriau a fyddai'n cael eu treulio'n uwchsgilio staff. Gellir rheoli'r gost untro hon yn 2025-26 o fewn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol sydd gan Lywodraeth Cymru gyda'r Tribiwnlys.

7.13. Ni fyddai unrhyw gostau uniongyrchol i drethdalwyr nac i awdurdodau lleol o ganlyniad i'r newidiadau hyn a amlinellir yn yr opsiwn hwn.

**Manteision**

8.1. Byddai'r diwygiadau arfaethedig i'r broses gynnig ac apelio yn gwella tryloywder i drethdalwyr, gan ddarparu data am eu heiddo i drethdalwyr yn gynharach yn y broses nag y'i darperir ar hyn o bryd. Byddai'r newid hwn yn caniatáu i drethdalwyr wneud dewis ar sail gwybodaeth ynghylch sut i fwrw ymlaen ag apêl yn gynharach yn y broses ac yn caniatáu iddynt fynd ar drywydd apêl dim ond os byddant yn dewis gwneud hynny.

8.2. Ni fyddai cynigion heb eu datrys bellach yn cael eu hanfon ymlaen i'r Tribiwnlys yn awtomatig, ac yn hytrach bydd trethdalwyr wedi'u grymuso i wneud eu penderfyniad eu hunain am apêl. Byddai hyn yn arwain at fwy o effeithlonrwydd a llai o apelau diangen yn y system dribiwnlysoedd ac yn rhoi ymreolaeth i drethdalwyr i ysgogi apêl. Byddai pwerau rheoli achos ychwanegol yn cael eu rhoi yn benodol i'r Tribiwnlys, gan ganiatáu iddo wneud penderfyniadau gweithredol, er enghraifft, am wrandawiadau.

8.3. Byddai'r broses well yn hwyluso arbedion effeithlonrwydd i'r Asiantaeth a'r Tribiwnlys, gan ganiatáu iddynt reoli adnoddau cyfyngedig yn well ar achosion eraill a gwella'r gwaith o gyflawni'n weithredol. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol yn ystod blynyddoedd ailbrisio yn y dyfodol. Byddai gwelliannau i'r broses yn sicrhau y byddai'r broses apelio yn addas i'r diben cyn yr ailbrisiad yn 2028, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

8.4. Byddai gwneud Rheoliadau 2025 yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dreth gyngor decach a mwy graddoledig fel yr amlinellir yn Rhaglen Lywodraethu tymor y Senedd hon.

## 9. Crynodeb o'r opsiynau

9.1. Ni fyddai gwneud dim yn arwain at unrhyw welliannau effeithlonrwydd i'r system apelio bresennol yn erbyn y dreth gyngor. Er y byddai manteision yr opsiwn hwn yn cynnwys rhanddeiliaid yn parhau i fod yn gyfarwydd â'r broses bresennol, ni fyddent yn elwa ar system apelio well, fwy syml a thryloyw. Nid yw opsiwn 1 ychwaith yn cefnogi nodau polisi ehangach y diwygiadau i'r dreth gyngor, sef creu system decach.

9.2. Byddai opsiwn 2 yn arwain at fframwaith apelio mwy costeffeithiol ac yn sicrhau bod trethdalwyr yng Nghymru yn elwa ar broses fwy syml ar gyfer herio ac apelio yn erbyn eu band treth gyngor. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 yn y dyfodol, sydd wedi deddfu ar gyfer ailbrisiadau amlach o 2028 ymlaen, gan sicrhau bod y system yn addas i'r diben. Byddai cyfleoedd hefyd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol i'r Asiantaeth a'r Tribiwnlys wrth reoli cynigion ac apelau yn erbyn y dreth gyngor. Byddai hyn o fudd i drethdalwyr ac yn sicrhau tegwch yn system y dreth gyngor yn gyffredinol. Ystyrir bod y manteision hirdymor yn gorbwyso costau gweithredu untro'r newidiadau.

9.3. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir.

## 10. Dyletswyddau

10.1. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Bydd sicrhau bod gan drethdalwyr yng Nghymru fynediad at system apelio wedi'i moderneiddio, a fydd yn gwneud prosesau apelio yn fwy effeithlon ac yn haws eu dilyn i drethdalwyr, yn cefnogi sefydlogrwydd ac eglurder yn system y dreth gyngor ac yn cyfrannu at yr amcanion llesiant o Gymru decach a Chymru lewyrchus.

10.2. **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

10.3. **Y Gymraeg**. Ni nodwyd unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal mewn cysylltiad â'r ddeddfwriaeth.

10.4. **Cydraddoldeb**. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

10.5. **Y sector gwirfoddol**. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar y sector gwirfoddol.

## 11. Asesu’r gystadleuaeth

11.1. Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gynnal ar Reoliadau 2025 a bernir bod y risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn isel.

## 12. Adolygu ar ôl gweithredu

12.1. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y newidiadau drwy weithio'n agos gyda'r Asiantaeth a'r Tribiwnlys fel rhan o'r broses arferol o fonitro'r cytundeb lefel gwasanaeth, ac ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid i asesu effeithiolrwydd gweithdrefnau newydd ac effeithiau ar niferoedd cyffredinol o fewn y system apelio.